Llywodraeth Cymru
Welsh Government


GIG CYMRU
NHS WALES

# Fframwaith Perfformiad GIG Cymru 2022-2023

## Mehefin 2022






OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45338, ISBN digidol 978-1-80364-310-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**Fframwaith Perfformiad y GIG 2022-2023**

Mae'r holl fesurau yn Fframwaith Perfformiad y GIG ar gyfer 2022-2023 wedi'u mapio i nodau pedwarplyg 'Cymru Iachach' ac maent yn adlewyrchu meysydd blaenoriaeth y Gweinidog.




Fframwaith dros dro yw hwn tra bod gwaith pellach yn cael ei wneud i nodi mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n cyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn Fframwaith Cynllunio'r GIG a'r Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (sydd wrthi'n cael ei ddatblygu). Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyd-gynhyrchu ar y cyd â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru.

# Mesurau Perfformiad GIG Cymru

## Nod Pedwarplyg 1: Mae gan bobl Cymru iechyd a llesiant gwell gyda gwell mesurau atal a hunanreolaeth.

Bydd pobl yn cymryd cyfrifoldeb, nid yn unig am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, ond hefyd am eu teuluoedd ac am y bobl y maent yn gofalu amdanynt, a hyd yn oed efallai eu ffrindiau a'u cymdogion.

Byddwn yn edrych ar iechyd a gofal cymdeithasol fel un system gyfan, gyda’r gwasanaethau yn un elfen yn unig o gefnogi pobl i fwynhau gwell iechyd a llesiant drwy gydol eu bywydau. Bydd yn system 'llesiant' sydd â’r nod o gefnogi a rhagweld anghenion iechyd, atal salwch a lleihau effaith iechyd gwael.

| Mesur Perfformiad | |
|---|---|
| **Rheoli Pwysau** | 1. Canran yr oedolion sy'n colli pwysau sy'n glinigol arwyddocaol (5% neu 10% o bwysau eu corff) drwy Lwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan<br>2. Adroddiad ansoddol yn manylu ar gynnydd yn erbyn cynlluniau'r Byrddau Iechyd i gyflawni Llwybr Rheoli Pwysau GIG Cymru<br>3. Canran y babanod sy'n cael eu bwydo ar y fron yn unig yn 10 diwrnod oed |
| **Smygu** | 4. Canran yr oedolion (16+ oed) sy'n dweud eu bod yn smygu naill ai'n ddyddiol neu'n achlysurol ar hyn o bryd<br>5. Canran y smygwyr sy'n oedolion sy'n ceisio rhoi'r gorau iddi drwy wasanaethau rhoi'r gorau i smygu<br>6. Rhoi’r gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu Helpa Fi i Stopio ar waith mewn ysbytai a lleihau smygu yn ystod beichiogrwydd |
| **Diabetes** | 7. Canran y cleifion (12 oed a hŷn) sydd â diabetes a dderbyniodd bob un o'r wyth proses ofal a argymhellir gan NICE<br>8. Canran y cleifion (12 oed a hŷn) sydd â diabetes ac sydd wedi cyrraedd pob un o'r tri tharged triniaeth yn y 15 mis blaenorol:<br>• Darlleniad pwysedd gwaed yn 140/80 mmHg neu'n llai<br>• Gwerthoedd colesterol yn llai na 5 mmol/l (<5)<br>• HbA1c yn hafal neu'n llai na 58 mmol/mol neu lai |

| Mesur Perfformiad | |
|---|---|
| **Camddefnyddio Sylweddau** | 9. Y gyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni yn ôl oedran o ran derbyniadau i'r ysbyty oherwydd alcohol ar gyfer unigolion sy'n byw yng Nghymru (ar sail episod)<br>10. Canran y bobl a gyfeiriwyd at wasanaethau'r bwrdd iechyd sydd wedi cwblhau triniaeth ar gyfer camddefnyddio alcohol |
| **Brechiadau** | 11. Canran y plant sydd wedi cael tri dos o'r brechlyn chwefalent '6 mewn 1' erbyn iddynt gael eu pen-blwydd yn 1 oed<br>12. Canran y plant sydd wedi cael dau ddos o'r brechlyn MMR erbyn iddynt gael eu pen-blwydd yn 5 oed<br>13. Canran preswylwyr cymwys Cymru sydd wedi manteisio ar frechlyn atgyfnerthu COVID-19 yn ystod hydref 2022 yn ôl bwrdd iechyd<br>14. Canran preswylwyr cymwys Cymru sydd wedi manteisio ar frechiad rhag y ffliw 2022-23 yn ôl bwrdd iechyd |
| **Sgrinio** | 15. Darpariaeth sgrinio canser ar gyfer:<br>• Canran y bobl gymwys 25-49 oed sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen sgrinio serfigol o fewn y 3.5 mlynedd diwethaf a phobl gymwys 50-64 oed o fewn y 5.5 mlynedd diwethaf<br>• Canran y bobl gymwys sydd wedi cymryd rhan yn rhaglen sgrinio'r coluddyn o fewn y 2.5 mlynedd diwethaf<br>• Canran y menywod sy'n breswylwyr ac yn gymwys i gael prawf sgrinio am ganser y fron ar adeg benodol sydd wedi'u sgrinio yn ystod y tair blynedd flaenorol |

**Nod Pedwarplyg 2: Mae gan bobl Cymru wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd gwell a mwy hygyrch, wedi'u hwyluso gan dechnoleg ddigidol a'u cefnogi gan ymgysylltu.**

Bydd system deg, sy'n sicrhau canlyniadau iechyd cyfartal i bawb yng Nghymru. Bydd yn gwella llesiant corfforol a meddyliol pawb, drwy gydol eu bywydau, o'u genedigaeth hyd at ddiwedd urddasol.

Bydd gwasanaethau'n ddi-dor ac yn cael eu darparu mor agos at y cartref â phosibl. Bydd gwasanaethau ysbytai yn cael eu cynllunio i leihau'r amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysbyty, a chyflymu adferiad. Bydd symud y pwyslais i adnoddau yn y gymuned yn golygu bod modd cyrraedd at ofal mewn ysbyty yn gynt pan fo angen hynny.

| Mesur Perfformiad | |
|---|---|
| **Gofal Sylfaenol a Chymunedol** | 16. Canran y practisau meddygon teulu sydd wedi cyflawni'r holl safonau a nodir yn y Safonau Mynediad Cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth yn ystod oriau'r feddygfa<br>17. Nifer y Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (UPCC) a sefydlwyd ym mhob ardal Bwrdd Iechyd (h.y., y ddau fodel UPPC)<br>18. Nifer y cleifion newydd (plant o dan 18 oed) sy'n defnyddio gwasanaethau deintyddol y GIG<br>19. Nifer y cleifion newydd (oedolion 18 oed a hŷn) sy'n defnyddio gwasanaethau deintyddol y GIG<br>20. Nifer y cleifion presennol sy'n defnyddio gwasanaethau deintyddol y GIG |
| **Gofal Brys a Gofal mewn argyfwng** | 21. Canran y cleifion 111 a flaenoriaethwyd fel P1CHC ac a ddechreuodd eu hasesiad clinigol diffiniol o fewn 1 awr i gwblhau eu galwad gychwynnol<br>22. Canran y cyfanswm a gludwyd i wasanaeth ar wahân i Adran Achosion Brys Math Un<br>23. Adroddiad ansoddol yn manylu ar gynnydd yn erbyn cynlluniau'r Byrddau Iechyd i ddarparu Gwasanaeth Gofal Dydd Brys yr Un Diwrnod (12 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos) ar draws pob safle acíwt<br>24. Canran y cleifion sydd wedi cael diagnosis o strôc ac sy'n cael eu derbyn yn uniongyrchol i uned strôc o fewn 4 awr i'r amser y dechreuodd cloc y claf<br>25. Canran y cleifion sy'n treulio llai na 4 awr ym mhob cyfleuster gofal brys mawr a bach (h.y. adran damweiniau ac achosion brys) o'r adeg y byddant yn cyrraedd i'r adeg y cânt eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.<br>26. Nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy ym mhob cyfleuster gofal brys mawr a bach mewn ysbytai o'r adeg y byddant yn cyrraedd i'r adeg y cânt eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau<br>27. Amser canolrifol o gyrraedd adran argyfwng i gael eu brysbennu gan glinigydd<br>28. Amser canolrifol o gyrraedd adran argyfwng i gael asesiad gan uwch swyddog sy'n gwneud penderfyniadau clinigol |

| Mesur Perfformiad | |
|---|---|
| **Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng** | 29. Canran y cleifion (60 oed a hŷn) a gyrhaeddodd wedi torri eu clun ac a gafodd asesiad orthogeriatrig o fewn 72 awr<br>30. Canran y cleifion strôc sy'n cael thrombectomi mecanyddol<br>31. Canran yr ymatebion brys i alwadau coch sy'n cyrraedd o fewn (hyd at ac yn cynnwys) 8 munud<br>32. Nifer y trosglwyddiadau ambiwlans dros 1 awr |
| **Llif Cleifion a Rhyddhau** | 33. Nifer y bobl sy’n cael eu derbyn i’r ysbyty fel argyfwng ac sy'n aros mewn ysbyty acíwt neu gymunedol am fwy na 21 diwrnod ar ôl eu derbyn<br>34. Canran cyfanswm y diwrnodau gwely brys a gronnwyd gan bobl sydd â hyd arhosiad dros 21 diwrnod<br>35. Canran y bobl y neilltuwyd llwybr D2RA iddynt o fewn 48 awr i'w derbyn<br>36. Canran y bobl sy'n gadael yr ysbyty ar lwybr D2RA<br>37. Canran y cleifion strôc sy'n cael o leiaf 45 munud o therapi lleferydd ac iaith mewn 5 allan o 7 diwrnod |
| **Gofal Dewisol wedi'i Gynllunio** | 38. Canran y cleifion sy'n dechrau eu triniaeth canser ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod o'r pwynt o amheuaeth (waeth beth fo'r llwybr atgyfeirio)<br>39. Nifer y llwybrau sy'n aros dros 8 wythnos am endosgopi diagnostig<br>40. Nifer y llwybrau sy'n aros 8 wythnos am brawf diagnostig penodol<br>41. Nifer y llwybrau sy'n aros dros 14 wythnos am wasanaethau therapi<br>42. Nifer y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos am apwyntiad claf allanol newydd<br>43. Nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad claf allanol dilynol ac sy'n wynebu oedi dros 100%<br>44. Canran yr apwyntiadau offthalmoleg R1 a fynychwyd a oedd o fewn eu dyddiad targed clinigol neu o fewn 25% y tu hwnt i'w dyddiad targed clinigol<br>45. Nifer y cleifion sy'n aros mwy na 104 wythnos am driniaeth<br>46. Nifer y cleifion sy'n aros mwy na 36 wythnos i gael eu hatgyfeirio i driniaeth<br>47. Canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos i gael eu hatgyfeirio i driniaeth |

| Mesur Perfformiad | |
|---|---|
| **Iechyd Meddwl** | 48. Cyfradd y plant a phobl ifanc sy’n cael eu derbyn i'r ysbyty lle ceir unrhyw sôn am hunan-niweidio bwriadol (10-24 oed) fesul 1,000 o'r boblogaeth<br>49. Canran y cleifion sy'n aros llai na 28 diwrnod am apwyntiad cyntaf Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed arbenigol (sCAMHS)<br>50. Canran yr asesiadau iechyd meddwl a gynhaliwyd o fewn (hyd at a chan gynnwys) 28 diwrnod o ddyddiad derbyn yr atgyfeiriad ar gyfer pobl o dan 18 oed<br>51. Canran yr ymyriadau therapiwtig a ddechreuwyd o fewn (hyd at a chan gynnwys) 28 diwrnod yn dilyn asesiad gan LPMHSS ar gyfer pobl o dan 18 oed<br>52. Canran preswylwyr y byrddau iechyd sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd ac sydd â chynllun gofal a thriniaeth dilys ar gyfer pobl o dan 18 oed<br>53. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n aros llai na 26 wythnos i ddechrau asesiad niwroddatblygiad ADHD neu ASD<br>54. Adroddiad ansoddol yn manylu ar y cynnydd a wnaed i ddatblygu dull ysgol gyfan at wasanaethau mewngymorth CAMHS<br>55. Canran y defnyddwyr gwasanaeth (oedolion 18 oed a hŷn) a dderbynnir i ysbyty seiciatrig rhwng 09:00 a 21:00 o'r gloch sydd wedi cael asesiad gan y gwasanaeth CRHT cyn eu derbyn<br>56. Canran y defnyddwyr gwasanaeth (oedolion 18 oed a hŷn) a dderbynnir i ysbyty seiciatrig nad ydynt wedi cael asesiad gan y CRHTS cyn eu derbyn, ond sydd wedi cael asesiad dilynol gan y CRHTS o fewn 24 awr<br>57. Canran yr asesiadau iechyd meddwl a gynhaliwyd o fewn (hyd at a chan gynnwys) 28 diwrnod i ddyddiad derbyn atgyfeiriad ar gyfer oedolion 18 oed a hŷn<br>58. Canran yr ymyriadau therapiwtig a ddechreuwyd o fewn (hyd at a chan gynnwys) 28 diwrnod yn dilyn asesiad gan LPMHSS ar gyfer oedolion 18 oed a hŷn<br>59. Canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos i ddechrau therapi seicolegol mewn gwasanaeth Iechyd Meddwl Arbenigol i Oedolion<br>60. Canran preswylwyr y byrddau iechyd sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd ac sydd â chynllun gofal a thriniaeth dilys ar gyfer oedolion 18 oed a hŷn<br>61. Adroddiad ansoddol yn manylu ar gynnydd i wella gofal dementia (gan ddarparu tystiolaeth o ddysgu a datblygu yn unol â Gwaith Da – Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia) a gwella mynediad at ddiagnosis amserol |

| Mesur Perfformiad | |
|---|---|
| **Anableddau Dysgu** | 62. Adroddiad ansoddol yn manylu ar gynnydd yn erbyn y meysydd blaenoriaeth i wella bywydau pobl ag anableddau dysgu |
| **Rheoli Heintiau mewn Ysbytai** | 63. Nifer cronnol yr achosion o bacteremia a gadarnhawyd gan labordy: Klebsiella sp ac; Aeruginosa<br>64. Cyfradd gronnol o achosion o facteremia wedi'u cadarnhau mewn labordy fesul 100,000 o'r boblogaeth: E-coli; S. aureus bacteremias (MRSA ac MSSA) a C. difficile<br>65. Canran yr achosion o COVID-19 a gadarnhawyd yn yr ysbyty a oedd â dechrau pendant yn yr ysbyty<br>66. Canran yr achosion o COVID-19 a gadarnhawyd yn yr ysbyty a oedd â dechrau tebygol yn yr ysbyty |

## Nod Pedwarplyg 3: Mae'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn frwdfrydig a chynaliadwy.

Bydd modelau gofal newydd yn cynnwys dull tîm amlddisgyblaethol eang lle mae pobl sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion a dewisiadau unigolion.

Bydd trefniadau cynllunio'r gweithlu ar y cyd ar waith gyda phwyslais ar ehangu sgiliau cyffredinol staff a gweithio ar draws ffiniau proffesiynol. Bydd partneriaeth strategol yn cefnogi hyn gyda darparwyr addysg ac academïau dysgu yn canolbwyntio ar allu ac arweinyddiaeth broffesiynol.

**Mesur Perfformiad**

| | |
|---|---|
| **Adnoddau Staff** | 67. Gwariant asiantaeth fel canran o gyfanswm y bil cyflog<br>68. Canran cyfradd absenoldeb staff oherwydd salwch<br>69. Canran y staff sydd wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR ac sydd â sgiliau gwrando/siarad Cymraeg lefel 2 (lefel sylfaenol) ac uwch |
| **Hyfforddi a Datblygu** | 70. Cydymffurfiaeth ganrannol ar gyfer yr holl gymwyseddau lefel 1 a gwblhawyd o fewn y Fframwaith Sgiliau Craidd a Hyfforddiant yn ôl sefydliad<br>71. Canran y staff yn ôl sefydliad sydd wedi cael Arfarniad Personol ac Adolygiad Datblygu/arfarniad meddygol yn y 12 mis blaenorol (heb gynnwys meddygon a deintyddion dan hyfforddiant) |
| **Ymgysylltu â Staff** | 72. Sgôr ymgysylltu cyffredinol staff<br>73. Canran y staff sy'n adrodd bod eu rheolwr llinell yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u llesiant |

## Nod Pedwarplyg 4: Mae gan Gymru system iechyd a gofal cymdeithasol gwerth uwch sydd wedi dangos gwelliant ac arloesedd yn gyflym, wedi'i hwyluso gan ddata a chanolbwyntio ar ganlyniadau.

Bydd sicrhau gwerth uwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar ganlyniadau sydd o bwys i'r unigolyn ac yn gwneud ein gwasanaethau'n ddiogel, yn effeithiol, yn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar bobl, yn amserol, yn effeithlon ac yn deg. Bydd hyn yn rhoi'r unigolyn yn gyntaf ac yn ystyried gwerth cymharol y gwahanol opsiynau gofal a thriniaeth, yn unol â Gofal Iechyd Darbodus.

Bydd gweithgarwch ymchwil, arloesi a gwella yn cael ei ddwyn ynghyd ar draws rhanbarthau – gan weithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, prifysgolion, diwydiannau a phartneriaid eraill. Bydd trefniadau alinio ffrydiau ariannu a rheoli perfformiad ac atebolrwydd integredig ar waith ar draws y system gyfan i gyflymu'r broses o drawsnewid drwy gyfuniad o gymorth cenedlaethol, cymhellion, rheoleiddio, meincnodi a thryloywder.

| Mesur Perfformiad | |
|---|---|
| **Dad-garboneiddio** | 74. Allyriadau a adroddwyd yn unol â Dull Adrodd Sero Net Sector Cyhoeddus Cymru<br>75. Adroddiad ansoddol yn manylu ar gynnydd cyfraniad GIG Cymru at ddad-garboneiddio fel yr amlinellir yng nghynllun y sefydliad |
| **Yr Economi Sylfaenol** | 76. Adroddiad ansoddol yn manylu ar dystiolaeth fod GIG Cymru yn datblygu ei ddealltwriaeth a'i rôl o fewn yr economi sylfaenol drwy gyflawni Rhaglen yr Economi Sylfaenol mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22 |
| **Ffyrdd Newydd o Weithio** | 77. Adroddiad yn manylu ar dystiolaeth fod GIG Cymru yn ymgorffori Iechyd a Gofal Seiliedig ar Werth o fewn cynlluniau strategol sefydliadol a phrosesau gwneud penderfyniadau<br>78. Nifer yr asesiadau risg a gwblhawyd ar Gofnod Clinigol Nyrsio Cymru yn ôl Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth<br>79. Nifer y wardiau sy'n defnyddio Cofnod Clinigol Nyrsio Cymru yn ôl Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth<br>80. Canran y cyfnodau gofal wedi'u codio'n glinigol o fewn un mis adrodd ar ôl y dyddiad rhyddhau |
| **Rhagnodi sy'n Effeithiol yn Glinigol** | 81. Cyfanswm yr eitemau gwrthfacterol fesul 1,000 o unedau rhagnodi penodol sy'n gysylltiedig ag oedran/rhyw y grŵp therapiwtig (STAR-PU)<br>82. Canran y defnydd o wrthfiotigau gofal eilaidd yng nghategori Mynediad Sefydliad Iechyd y Byd<br>83. Nifer y cleifion 65 oed a hŷn sydd wedi cael cyffuriau gwrthseicotig ar bresgripsiwn<br>84. Meintiau dyddiol cyfartalog o gyffuriau opioid fesul 1,000 o gleifion |